

Cyfarfod Cynllunio Addysg a'r Iaith Gymraeg

Dydd Mercher 15.09.2021, 10:15 tan 11:45am

Microsoft Teams

Cofnodion

Mynychwyr

- Catrin James, Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol
- Sian Rees, Cyngor Rhyg-ffydd Cymru
- Elin Maher, Rhieni Dros Addysg Gymraeg
- Eleanor Jones, CGGC
- Amber Demetrius, Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru
- Bedwyr Ap Gwyn, Ymddiriedolaeth John Muir
- Heddwen Daniel, Cymorth i Ferched Cymru
- Vikki Cornish, Cynulliad Merched Cymru
- Emma Phipps Magill, VFCC
- Dan Roberts, Canolfan Cydweithredol Cymru
- Kathryn Robson, Addysg Oedolion Cymru
- Hadassah Radway, Race Council Cymru
- Michelle Gunn, Ymddiriedolaeth y Tywysog Cymru
- Laura Abraham, Busnes yn y Gymuned
- David Hagendyk, Y Sefydliad Dysgu a Gwaith
- Lowri Jones, Mentrau Iaith Cymru
- Phil Stubbington, Ymddiriedolaeth John Muir
- Rocío Cifuentes, Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig
- David Smith, Mentrau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru
- Natalie Zhivkova, CGGC
- Ben Lloyd, CGGC
- Fiona Harris, CGGC

Croeso a Chyflwyniadau

Cofnodion o'r cyfarfod cynllunio blaenorol

Siaradodd Ben am CGGC yn cynnal trafodaethau gyda Mentrau Iaith Cymru ynghylch materion yr iaith Gymraeg nad ydynt yn ymwneud ag addysg. Roedd aelodau'n pryderu bod gwahaniaeth rhwng addysg a

materion yr iaith Gymraeg a'i bod yn bwysig ein bod yn chwilio am fecanwaith i fynd i'r afael â'r ddau fater. Derbyniodd y grŵp y cofnodion.

Trafodaeth ynghylch eitemau ar gyfer y cyfarfod Gweinidogol nesaf

Camau Gweithredu:

Ailbwysleisiodd Ben y tair eitem agenda arfaethedig y cytunwyd arnynt yn ystod y cyfarfod diwethaf:

- Gwaith addysgol
- Cymorth llesiant (iechyd meddwl, cymorth teulu, ac ati)
- Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn y system

Rhodddwyd neges atgoffa ynghylch y papur templed a ddsbarthwyd a bod angen astudiaethau achos ar ei gyfer. Cynhaliwyd trafodaethau ynghylch Dysgu Oedolion yn y Gymuned gan nodi bod y Gymraeg yn chwarae rhan bwysig. Nododd Elin fod y Cynlluniau Strategol Addysg wedi'u cyhoeddi ar gyfer ymgynghori. Ceir pryderon ynghylch plant mewn addysg Gymraeg ond o gartrefi di-Gymraeg – cyswllt i ddefnyddio'r iaith yn y gymuned ac mewn addysg.

Trafodwyd dinasyddiaeth – nid yw athrawon yn hyderus o ran y mater hwn ond gallai'r sector gwirfoddol fod o gymorth. Nid oes cysylltiad rhwng y sector ac addysg felly mae angen creu cysylltiadau i'w wneud yn hygyrch.

Esboniodd Catrin fod y Grŵp Rhanddeiliaid Strategol wedi bod yn ystyried cysylltiadau â'r sector gwirfoddol a sut y byddai canllawiau'n cael eu datblygu er mwyn cyfoethogi profiadau.

Mae aelodau'n awyddus i dderbyn cymorth llesiant sy'n gydradd ag addysg. Mae llesiant yn sail i addysg. Mae mentrau wedi cael eu cynnal ond ar sail leol nid ar sail genedlaethol – Project Hope, cymorth i gymheiriaid dan arweiniad ieuencid i fynd i'r afael ag unigrwydd. Mynegwyd pryderon y bydd gwasanaethau nad oeddent wedi cynnal cymorth wyneb yn wyneb yn ystod y pandemig yn cael eu gorlethu yn ystod y misoedd i ddod. Sut bydd cyllid yn cael ei ddyrannu ar gyfer cymorth sector gwirfoddol?

Ar hyn o bryd mae Estyn yn cynnal adolygiad i aflonyddu rhywiol mewn ysgolion ond mae'r cylch gwaith cul yn peri gofid. Sut gall y sector gymryd rhan yn y broses gynllunio a gweithredu?

Mynegwyd pryderon ynghylch prydau ysgol am ddim i bawb. Mae gwaith yn cael ei gynnal gan y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant i'w gynnal wrth i rieni wynebu pwysedd cynyddol ar eu cyllidebau.

Cafwyd her i ddangos ystod y gwaith a gyflawnir o ran cydraddoldeb. Sut y bydd yn cael ei blannu ar draws y naw nodwedd warchoddedig. Angen cyfeirio at yr ymrwymadau yn y Rhaglen Lywodraethu. Mynegodd aelodau byrderon nad oedd grwpiau cymunedol wedi'u cysylltu ag ysgolion lleol a bod angen dod o hyd i ffordd o gydweithio.

Mynegwyd pryderon nad oedd rhai grwpiau'n weladwy a'u bod mewn perygl o dangyflawni. Angen newid terminoleg BAME

Blaenoriaethau cyffredin ar gyfer y tymor llywodraeth i ddod

Ceir teimlad nad oes modd edrych ar y tymor hirach tan ar ôl yr ymateb i'r adroddiad

- Bil Addysg Cymru
- Merched/menywod mewn addysg

Camau Gweithredu

CGGC i aildrafftio papur er mwyn i aelodau gynnwys astudiaethau achos (2 i 3) ond rhestru mudiadau eraill

CGGC i ddrafftio cwestiwn ynghylch Dysgu Oedolion yn y Gymuned ar gyfer pawb sy'n rhan ohono i'w addasu/ychwanegu ato

CGGC i barhau i ystyried sut i reoli materion sy'n gysylltiedig â'r iaith Gymraeg

Aelodau i rannu unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad Plant a Phobl Ifanc a CGGC i'w rhannu â'r grŵp ehangach